



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Pont y Gof  
Botwnnog  
Pwllheli  
Gwynedd  
LL53 8RA**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2013

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Gynradd Pont y Gof. Lleolir yr ysgol ym mhentref bychan Botwnnog ym mhen Llŷn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Sarn Mellteyrn, Llaniestyn a Garn Fadryn. Daw o dan ofal awdurdod lleol Sir Gwynedd.

Mae 104 o ddisgyblion ar y gofrestr sy'n cynnwys 12 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn bedwar dosbarth. Ar hyn o bryd, tua 7% o'r disgyblion sydd â hawl i ginio ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw tua 88% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen; yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed. Mae tua 27% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac yn derbyn cymorth o fewn yr ysgol gan gynnwys nifer fechan iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mai 2007. Cafodd y pennaeth presennol ei benodi ym Medi 2005.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pont Y Gof yn 2012-2013 yw £3,348. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Pont Y Gof yn safle 93ain o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno;
- ei bod yn gymuned gartrefol, ofalgar, diogel a threfnus sy'n hyrwyddo a chefnogi lles y disgyblion yn effeithiol;
- bod bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol, yn gwrtais iawn, yn cyfranogi'n gydwobodol mewn gwersi ac yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'u dysgu;
- ei bod yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog i'r disgyblion;
- bod yr athrawon yn ymroddgar a'r addysgu'n gyson gadarn; a
- bod gan y staff ar bob lefel ddisgwyliadau uchel iawn ohonyn nhw eu hunain a'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth yn arwain drwy esiampl mewn modd effeithiol iawn;
- bod gan y pennaeth weledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol a'i fod yn llwyddo i'w chyfleu yn llwyddiannus i'r holl randdeiliaid;
- y cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan y dirprwy a'r staff;
- bod effaith yr arweinyddiaeth ar ethos cartrefol yr ysgol yn elfen gref iawn;
- bod ymdeimlad cryf o weithredu fel tîm yn bodoli;
- bod aelodau'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'u rolau mewn modd cyfrifol;
- bod y broses hunanarfarnu yn drylwyr; a
- bod yr ysgol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol ac adeiladol gydag amrywiol sefydliadau er lles datblygiad y disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol bob amser yn cydnabod cyraeddiadau uchel y disgyblion mwyaf galluog

A2 Sicrhau bod pob ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei datblygu'n briodol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Y Gymraeg yw iaith naturiol rhan fwyaf y disgyblion. Mae bron pob un yn defnyddio'r Gymraeg yn raenus ac yn hyderus ymhob gweithgaredd. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae'r mwyafrif yn meddu ar eirfa goeth a defnyddiant gystrawen naturiol wrth fynegi barn a disgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud. Maent yn medru darllen yn ystyrion i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn medru ysgrifennu'n annibynnol mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm, gan sillafu ac atalnodi'n lled gywir.

Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru sgwrsio'n aeddfed yn y Gymraeg, gan ddefnyddio idiomau ac ymadroddion yn naturiol o fewn eu sgysiau a'u cyflwyniadau. Gall y mwyafrif fynegi barn mewn modd aeddfed iawn am ystod o destunau a themâu. Mae bron pob un yn medru darllen yn ystyrion gan fynegi barn am lyfrau a'u hoff awduron yn hyderus. Maent yn ysgrifennu'n estynedig i ystod o bwrpasau gan atalnodi'n gywir a chyfleu hiwmor a theimlad yn llwyddiannus.

Mae pob disgybl ar frig yr ysgol yn hollol ddwyieithog.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Gallant ddarllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i'w hoed, gan amrywio goslef eu llais yn briodol er mwyn cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon uchel mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn ac mae'r disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda iawn.

Yn 2012, mae 94% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn perthynas â'u datblygiad mewn medrau iaith, mathemateg a phersonol (y dangosydd Cyfnod Sylfaen). Mae hyn yn sylweddol uwch o'i gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn anghyson ar draws y meysydd dysgu o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% uchaf ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae 93% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn

cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Fodd bynnag, mae'r tuedd yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn yr 50% uchaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yn 2012.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

### **Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol, yn cyfranogi'n gydwybodol mewn gwersi ac yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'u dysgu. Mae ymddygiad a chwarteisi disgyblion yn rhagorol mewn sesiynau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hon yn nodwedd gref.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n iach ac yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd fel y 'Clwb Dal i Fynd' lle byddant yn loncian neu gerdded am gyfnodau penodol er mwyn cadw'n heini. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at eu lles a chodi eu hyder. Mae bron pob un yn deall am yr angen i fwyta'n iach ac mae gan y disgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o ffactorau sy'n debygol o effeithio ar eu iechyd. Maent yn deall am effaith ysmegu, yfed alcohol a chymryd cyffuriau.

Mae canran presenoldeb disgyblion dros 96% ac yn dangos tuedd ar i fyny. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn gadarnhaol i gyfrifoldebau a roddir iddynt, er enghraifft gofalu am y plant bach ar y buarth. Maent yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill. Mae'r disgyblion yn manteisio'n dda ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy eu cyfraniad i weithgareddau'r cyngor ysgol, cyngor Masnach Deg a'r cyngor bwyta'n iach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn mentrau masnachol fel cyhoeddi papur newydd a gwneud jam a siytni i'w gwerthu er mwyn gwneud elw. Maent hefyd yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol yr ysgol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol iawn.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Darperir cwricwlwm eang a chyfoethog i'r disgyblion sy'n cwrdd yn llawn â gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n effeithiol i gynllunio tasgau manwl a dychmygus sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau addysgol, gweithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau cyson yn y gymuned. Mae'r profiadau cyfoethog hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion.

Mae'r staff yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ym mhob maes dysgu gan sicrhau parhad a dilyniant i'r holl ddisgyblion. Mae'r amrediad o brofiadau yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd cynhwysfawr mewn medrau iaith, rhif, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a meddwl. Mae hyn yn nodwedd dda sy'n treiddio'n llawn drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi ffocws cadarn ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru. Mae hyn yn nodwedd gref. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 wedi astudio hanes yr iaith Gymraeg yn ddiweddar. Mae hyn wedi codi eu hymwybyddiaeth o'r iaith ynghyd â cherrig milltir cenedlaethol sydd wedi ceisio cynnal a hybu'r defnydd o'r iaith ar hyd y blynyddoedd. Mae'r Gymraeg yn treiddio i holl waith yr ysgol a chaiff idiomau a diarhebion sylw penodol er mwyn cyfoethogi safon iaith y disgyblion.

Trwy hyrwyddo cynlluniau ysgol werdd a Masnach Deg yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n gyson dda ar draws yr ysgol. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn defnyddio ystod briodol o ddulliau i ysgogi pob disgybl i gyrraedd ei botensial, gan gynnwys y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy abl a thalentog. Mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm, maent yn esbonio'n glir ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol. Mae cyflymder y gwersi, cwestiynu treiddgar a brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn tuag at ddatblygu dysgwyr annibynnol.

Mae'r sesiynau dysgu wedi eu cynllunio'n drwyadl ac mae cyfraniad staff cynorthwyol yn sylweddol. Defnyddir adnoddau'r ysgol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob gwrs ac mae perthynas arbennig o dda rhwng athrawon a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn rhoi pwyslais da ar ateb anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion. Defnyddiant amrediad o weithdrefnau sy'n sicrhau bod y disgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer marcio a darparu adborth llafar yn cyfrannu'n sylweddol at y nod hwn. Mae cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion ac mae pob un yn ymwybodol o'u targedau gwella. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gadarn iawn drwy'r ysgol ac yn rhan naturiol o bob gwrs.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i asesu, tracio a monitro cynnydd a chyflawniad. Mae athrawon yn dadansoddi data asesu yn fanwl gyda ffocws penodol ar gynnydd unigolion a grwpiau penodol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod tangyflawniad yn fuan ac yn ymateb yn effeithiol iawn. Mae staff yn nodi'n glir y cyfleoedd i ymestyn y disgyblion mwy abl a thalentog. Fodd bynnag, nid yw asesiadau athrawon diwedd cyfnodau allweddol bob amser yn rhoi cydnabyddiaeth briodol i gyraeddiadau uchel y disgyblion mwyaf galluog. Mae'r adroddiadau i rieni yn glir ac yn gynhwysfawr.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ofalgar, diogel a threfnus sy'n hyrwyddo a chefnogi lles y disgyblion yn dda. Mae'n lle hapus iawn lle teimla'r disgyblion yn gwbl ddiogel. Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo'n dda iawn gan glybiau chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill. Mae'r ysgol yn rhan bwysig iawn o'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda trwy gynllunio ystod eang o brofiadau. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol drwy'r llawlyfr a newyddlen 'Y Gof' a ddarperir yn rheolaidd.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnwys trwy drafodaethau staff a thracio cynnydd. Darperir cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o ddisgyblion gydag athrawes arbenigol yn rheolaidd. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cael eu herio er mwyn cyflawni safonau uchel. Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys y gwasanaeth seicolegydd addysg a therapydd iaith. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r Côd Ymarfer yn llawn.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos Ysgol Pont y Gof yn un cynhwysol iawn. Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar a cheir awyrgylch cynnes a naturiol rhwng y staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae pawb yn dangos awydd i helpu a chefnogi gwaith ei gilydd a rhoddir cyfle cyfartal i bawb. Anogir y disgyblion i ddangos parch a chonsyrn tuag at eraill ac i helpu rhai sydd o gefndiroedd amrywiol. Mae'r disgyblion yn dangos aeddfedrwydd yn eu hymwneud ag eraill ac o ganlyniad wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg a'u bywyd.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae'r rhain yn hysbys i'r holl randdeiliaid.



Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu yn seiliedig ar syniadau ac argymhellion a wneir gan y disgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar gydag adnoddau digonol ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd graenus o waith a llwyddiannau'r disgyblion i'w gweld ar draws yr ysgol ac mae'r rhain yn symbylu'r dysgu. Mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal yn dda ac mae'r gerddi amrywiol yn sicrhau amgylchedd lliwgar a chroesawgar. Er hynny, nid yw pob ardal allanol y Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n llwyr hyd yn hyn.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol drwy esiampl mewn modd effeithiol iawn. Mae'r disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni yn ei barchu fel arweinydd ac fel athro. Mae ganddo weledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol a llwyddda i'w chyfleu yn llwyddiannus i'r holl randdeiliaid. Cefnogir y pennaeth yn effeithiol iawn gan y dirprwy a'r tîm rheoli. Mae hapusrwydd, cynnydd a safonau uchel disgyblion yn ganolog i holl weithgareddau'r ysgol ac yn treiddio drwy ei holl gweithgareddau. Mae pob aelod staff wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddorion hyn ac yn gweithredu'n effeithiol iawn arnynt. Mae effaith yr arweinyddiaeth ar ethos cartrefol a rhediad esmwyth yr ysgol yn elfen ragorol.

Mae gweithdrefnau cyfathrebu'r ysgol yn glir i bawb sy'n ymwneud â hi. Mae ymdeimlad cryf iawn o weithredu fel tîm yn bodoli, gydag aelodau staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwytodol iawn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ohonyn nhw eu hunain a'r disgyblion. Mae strwythur penodol i'r cyfarfodydd staff, sy'n sicrhau cyfleoedd i drafod materion allweddol yn rheolaidd, gan ganolbwyntio ar safonau a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'u rolau mewn modd cyfrifol a chydwybodol. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'r ffordd mae'r ysgol yn perfformio. Maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson gan fonitro'r dysgu a'r addysgu a chynnal chyfarfodydd gyda chydlynwyr i drafod datblygiadau mewn meysydd penodol. Maent yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol ac yn herio'r ysgol pan fo angen.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda iawn, ac mae hyn eto wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi gwreiddio'n gadarn, rhoddir sylw penodol i ddatblygu medrau allweddol y disgyblion, ac i'w hannog i fyw yn iach. Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n ddiweddar i 'Siarter Iaith Gwynedd' er mwyn derbyn achrediad am ei chyfraniad tuag at ddiogelu'r iaith Gymraeg. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth disgyblion o hanes yr iaith yn ei chyd-destun. Mae'r staff wedi datblygu nifer o gymunedau dysgu proffesiynol effeithiol gydag ysgolion cyfagos. Mae rhain yn ymwneud â meysydd fel y Cyfnod Sylfaen, mathemateg, rheolaeth ac anghenion dysgu ychwanegol ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

## **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl a phwrpasol sy'n seiliedig ar ganfyddiadau ei gweithdrefnau arfarnu parhaus. Defnyddia'r ysgol ystod eang o weithdrefnau i arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth dda i farn y rhieni, staff a disgyblion. Mae'r arweinwyr a'r staff yn parchu barn y disgyblion ac yn aml yn mabwysiadu eu syniadau, gan gynnwys eu cyfraniad at ddewis aelodau newydd o staff.

Mae'r broses hunanarfarnu'n drylwyr, yn ddilys ac wedi ei seilio'n gadarn ar dystiolaeth o fonitro'r dysgu a'r addysgu ac o ddadansoddi ystod eang o ddata cyrhaeddiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r broses a'i deilliannau yn adnabod cryfderau'r ysgol yn dda fel bod gan arweinwyr a rheolwyr ddarlun a dealltwriaeth gywir o gryfderau a materion i'w datblygu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi amcanion penodol a phriodol. Mae'r rhain wedi'u dethol fel yr amcanion mwyaf blaenllaw yn dilyn y broses hunanarfarnu. Mae'r cynllun wedi ei gostio ac yn cynnwys amserlenni realistig a meini prawf llwyddiant priodol. Mae'r staff a'r rheolwyr yn adolygu cynnydd y blaenoriaethau yn rheolaidd i fesur eu dylanwad ar gynnydd a safonau.

Mae staff yn cael cyfleoedd da iawn i ehangu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau drwy ysgwyddo cyfrifoldebau a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol, ac yn arwain at fodloni anghenion hyfforddiant proffesiynol staff. Mae'r targedau penodol ar gyfer datblygiad yn seiliedig ar anghenion unigolion ynghyd â blaenoriaethau gwella ysgol gyfan.

Mae enghreifftiau da o gydweithio cryf a rhannu arferion dysgu effeithiol eisoes o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill y dalgylch trwy ddefnyddio'r rhyngwyd a thrwy gyfarfodydd cyson. Mae staff y Cyfnod Sylfaen wedi cyfrannu'n helaeth at y cydweithio hyn, ac wedi elwa'n fawr wrth ddatblygu eu dulliau addysgu er mwyn bodloni'r gofynion. Yn yr un modd, mae'r cydweithio ar ddulliau asesu ac ar bolisiâu a chynlluniau wedi bod o fudd i leihau baich gwaith arweinwyr ac athrawon a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol o ran gwella ansawdd a chodi safonau.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol ac adeiladol gydag amrywiol sefydliadau er lles datblygiad y disgyblion. Mae ganddi gysylltiadau cryf iawn gyda rhieni a gofalwyr ac mae wedi elwa'n ariannol ac yn ymarferol o'u cefnogaeth. Mae partneriaethau effeithiol iawn gyda'r gymuned a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar gyfranogiad y disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ysgolion cynradd eraill y dalgylch. Maent yn cyfarfod yn fisol i rannu a hyrwyddo arfer dda. Mae cysylltiadau gydag ystod priodol o asiantaethau cefnogol wedi arwain at sicrhau cefnogaeth dda iawn i les y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'r ysgol uwchradd i gymedroli a safoni gwaith yn y pynciau craidd a chyflwyno prosiectau ar y cyd. Mae cydweithio agos rhwng y tair ysgol gynradd leol i rannu profiadau o ran datblygu staff a chymorthyddion, ac i rannu syniadau, llwyddiannau a dulliau cyflwyno amrywiol bynciau fel mathemateg. Mae hyn wedi cael dylanwad cryf ar godi safonau.

Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r cylchoedd meithrin sy'n ei bwydo. Mae hyn wedi arwain at drefniadau trosglwyddo da iawn ar gyfer y disgyblion sy'n dechrau'r ysgol. Yn yr un modd, mae rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ac ymweliadau ar gyfer disgyblion sydd ar fin trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgaretrefu'n gyflym yn eu hysgol newydd.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn effeithiol iawn i gyfoethogi'r cwricwlwm, gan gynnwys ei hadnoddau dysgu, ac arbenigedd a phrofiad ei staff.

Mae gan aelodau staff lefelau da o wybodaeth ac arbenigedd i gwrdd ag anghenion y disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn effeithlon iawn gyda'i gilydd. Gwna'r athrawon ddefnydd da iawn o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r modd y rheolir yr amser hwn yn cyfrannu'n effeithiol at gynnal y gwelliant parhaus yn lles a chyraeddiadau disgyblion, yn enwedig yn yr agweddau creadigol o'r cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn dyrannu cyllid yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae gwariant yn cael ei nodi'n ofalus, yn arbennig ar gyfer y staffio ac adnoddau angenrheidiol eraill. Mae'r pennaeth yn archwilio'r gyllideb yn gyson, ac mae pwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu'r sefyllfa.

O ystyried safonau disgyblion, yr ethos a'r gofal, ansawdd yr addysgu a'r cyswllt cadarn gyda'r partneriaid, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Ysgol Gynradd Pont y Gof yw'r wythfed ysgol o ran her yn y teulu o ysgolion tebyg.

Yn 2012, cyflawnodd 94% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y lefel ddisgwyliedig mewn perthynas â'u datblygiad mewn medrau iaith, mathemateg a phersonol (y dangosydd Cyfnod Sylfaen). Mae hyn yn sylweddol uwch o'i gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg lle cyflawnodd 83% y dangosydd pwnc craidd a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, lle roedd y cyfartaledd yn 80%. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad mathemategol a iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 25% uwch ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. Roedd yn perfformio yn yr 50% uwch o ran medrau iaith, ac yn yr 50% is o ran medrau mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, cyflawnodd 93% o ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg lle cyflawnodd 89% y dangosydd pwnc craidd a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, lle roedd y cyfartaledd yn 83%. Mae'r tuedd yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf. Roedd y canran a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 25% uwch ar gyfer y Gymraeg, yn yr 50% is ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 25% is yn y Saesneg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Holiaduron disgyblion

Cafwyd 51 ymateb gan y disgyblion.

Mae pob un o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt gael ymarfer corff;
- bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol;
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith; a
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae bron pob un o'r farn:

- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae ymatebion disgyblion Ysgol Gynradd Pont y Gof yn cymharu'n gadarnhaol gydag ymatebion cyfartalog disgyblion ar draws Cymru ym mhob datganiad.

#### Holiaduron rhieni

O'r 39 o ymatebion a gafwyd gan rieni:

Roedd pob un o'r farn:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau;
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;

- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Roedd bron pob un o'r farn:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael.

Mae ymatebion rhieni Ysgol Gynradd Pont y Gof yn cymharu'n gadarnhaol gydag ymatebion cyfartalog rhieni ar draws Cymru ym mhob datganiad.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Huw Watkins	Arolygydd Cofnodol
Buddug Bates	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Catherine Lloyd-Jenkins	Arolygydd Cymheiriaid
Euros Wyn Davies	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.



Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.